

DAETH crefftau cefn gwlad a thalp o hanes at ei gilydd i roi diwrnod gwylt i bobl.

Pwll Cae Brics y Rhyl oedd y ffocws ar gyfer digwyddiad am ddim diweddaraf y dref, a ddenodd cannoedd o bobl o bob cwr o Sir Ddinbych.

Trefnwyd gan Gyngor Tref y Rhyl a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, rhoddodd Rhyl Wylt gyfle i bobl roi cynnig ar grefftau gan gynnwys plygu helyg, plygu gwrychoedd a throchi'r pwll. Roedd peintio wynebaw, adar rheibus, gwneud blychau adar, beicio a gwneud llwyau a bathodynau hefyd ar gael.

Meddai Maer y Rhyl, y Cyngorydd Alan James: "Roedd y digwyddiad diweddaraf hwn yn dangos ochr wahanol i'r Rhyl. Mae gennym y môr a chefn gwlad yma ac roedd pobl yn awyddus i ddod draw a rhoi gynnig ar weithgareddau newydd a chrwydro'r Pwll Brics. Roedd yn dda gweld cefnogaeth gystal, ac roeddem yn falch iawn o weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych am yr ail flwyddyn."

Rhoddodd y diwrnod hefyd gyfle i bobl rannu eu hatgofion o'r Pwll Brics dros y blynnydoedd. Gyda chynlluniau posibl ar gyfer nodwedd hanes barhaol ger y pwll, gofynnwyd i bobl a oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad rannu eu hatgofion a'u harteffectau fel rhan o ymarfer ymgynghori.

Meddai Garry Davies, Swyddog Cefn Gwlad Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych (y Gogledd): "Mae gan y Pwll Brics hanes cyfoethog fel y twll clai a oedd yn gwasanaethu gwaith brics y dref – mae'n rhan bwysig o hanes y dref ac un nad ydym eisiau iddo gael ei anghofio. Mae gan lawer o bobl leol atgofion o'r gwaith brics a thrwy eu casglu at ei gilydd, medrwn eu defnyddio wrth ystyried cynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai a ddaeth draw a chofio'r dyddiau hynny i ni."

Rhyl Wylt oedd y digwyddiad diweddaraf gan Gyngor Tref y Rhyl, ac fel gaiff ei ddilyn gan ddangos ffilmiau Nadolig am ddim ym mis Rhagfyr.

Diwedd

